

**Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer  
Unigolion Cofrestredig Y  
Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

**Tachwedd 2015**

**Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Unigolion Cofrestredig Y Gwasanaeth  
Datgelu a Gwahardd**

**Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer  
Unigolion Cofrestredig Y Gwasanaeth Datgelu a  
Gwahardd**

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 122 (2) o  
Ddeddf yr Heddlu 1997

Tachwedd 2015

# Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Unigolion Cofrestredig Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## OGL

© Hawlfraint y Goron 2015

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Agored y Llywodraeth v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch i'r Tîm Polisi Gwybodaeth, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Ble yr ydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deilydd yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom, at

[Samuel.wray@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:Samuel.wray@homeoffice.gsi.gov.uk)

Print ISBN 9781474125512

Y We ISBN 9781474125529

ID 23101511 11/15

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o bapur a ailgylchwyd ac isafswm o ffeibr

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran

Rheolwr Swyddfa Deunydd Swyddfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Cyflwyniad	3
I bwy mae'r Cod hwn yn berthnasol	3
Troseddau Datgelu: Adrannau 123 ac 124 o Ddeddf yr Heddlu 1997	3
Beth sy'n digwydd os tramgwyddir y Cod?	4
Y Gofynion	5
Manylion Cofrestru	5
Y Broses Ymgeisio	5
Cadarnhau Hunaniaeth	5
Ymdrin â Data	6
Polisi Addasrwydd	6
Talu Ffioedd	7
Cymhwysedd	7
Ceisiadau Cydymffurfio	8
Geirfa	9

**Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Unigolion Cofrestredig Y Gwasanaeth  
Datgelu a Gwahardd**

# Cyflwyniad

Sefydlwyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ym mis Rhagfyr 2012 dan Rhan V o Ddeddf Diogelu Rhyddid (POFA)<sup>1</sup> i gynnal swyddogaethau datgelu a gwahardd. Mae gofynion cyfreithiol penodol ynghlwm â'r gwiriadau hyn. Gosodir y swyddogaethau datgelu yn Rhan V o Ddeddf yr Heddlu 1997,<sup>2</sup> sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Gyrrff Cofrestredig llynu at y Cod Ymarfer hwn.

## I bwy ma'r Cod hwn yn berthnasol?

Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i holl Gyrrff a Gofrestrwyd gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd dan adran 120 o Ddeddf yr Heddlu 1997 (Cyrrff Cofrestredig) a'r rhai sy'n derbyn gwybodaeth Gwasanaeth Diweddar sy'n cynnig swyddogaeth ymbarel i sefydliadau heb eu cofrestru. Mae'r Cod yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth a gyfnewidir rhwng y DBS a'r Corff Cofrestredig.

Nid yw'r Cod Ymarfer yn berthnasol i drydydd partion eraill. Bydd y DBS yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod drwy'r ystod lawn o brosesau rheoli sicrwydd y DBS.

Dylai'r holl ymgeiswyr am wiriad DBS fod yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer hwn a chael copi ar gais.

## Troseddau Datgelu: Adrannau 123 ac 124 o Ddeddf yr Heddlu 1997<sup>3</sup>

Er bod tystysgrifau bellach yn cael eu rhoi yn uniongyrchol i'r ymgeisydd, bydd cyrrff cofrestredig yn cael gwybodaeth bersonol mewn perthynas â cheisiadau a, ble mae cyrrff cofrestredig hefyd yn gyflogwyr, bydd sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac awdurdodau trwyddedu yn cael gwybodaeth am ddatgelu pan gânt dystysgrifau gan eu cyflogeion neu ymgeiswyr am swyddi, yn cynnwys gwirfoddolwyr.

Rhaid i'r rhai sy'n cael y wybodaeth am ddatgelu nodi, drwy ddulliau electronig neu drwy gopi'r ymgeisydd o'r datgeliad, ei bod hi'n drosedd datgelu gwybodaeth sydd mewn Tystysgrif DBS i unrhyw unigolyn nad yw'n aelod, swyddog neu gyflogai o'r Corff Cofrestredig neu eu cleient, oni bai bod eithriad cyfreithiol perthnasol mewn grym. Ymhellach, mae hefyd yn drosedd:

1. Datgelu gwybodaeth i unrhyw aelod, swyddog neu gyflogai lle nad yw hynny'n berthnasol i ddyletswyddau'r cyflogai
2. Gwneud datganiad ffals yn fwriadol er mwyn cael, neu alluogi unigolyn arall i gael, Tystysgrif

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/9/part5/enacted>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/50/part/V>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/50/adran/124>

## **Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Unigolion Cofrestredig Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Bydd Cyrff Cofrestredig a'r rhai sy'n cael gwybodaeth Gwasanaeth Diweddar, y credir iddynt droseddu, yn agored i gael eu herlyn, eu gwahardd neu golli eu cofrestriad.

### **Beth sy'n digwydd os tramgwyddir y Cod?**

Mae Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Cofrestru)<sup>4</sup> yn gosod yr Amodau Cofrestru. Mae rheoliad 7(h) ar gyfer chydymffurfio â'r Cod Ymarfer a gyhoeddir dan adran 122 o'r Ddeddf.

Gall methu â chydymffurfio ag Amodau'r Cofrestru olygu gwaharddiad neu ddiddymu'r cofrestriad. Mae hyn yn dilyn proses gyfreithiol gydag amserlenni clir.

Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion a osodwyd yn y Ddeddf Diogelu Data hefyd olygu gweithredu gorfodol o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

---

<sup>4</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2006/750/contents/made>

# Y Gofynion

## Manylion Cofrestru

Mae Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) (Cofrestru)<sup>5</sup> yn gosod y gofynion y mae'n rhaid i Gorff Cofrestredig eu bodloni er mwyn cadw ei gofrestrriad.

Rhaid i Gyrrff Cofrestredig:

1. Ddarparu gwybodaeth gyfredol i'r DBS mewn perthynas â'u gwybodaeth gofrestru a chyd-lofnodwyr yn unol â gweithdrefnau cyfredol.
2. Cadw'r holl gyfrifon, ar-lein neu fel arall, ar gyfer pob cynnyrch DBS a'u dileu pan nad oes eu hangen mwyach.
3. Sicrhau bod unrhyw system electronig yn cydymffurfio â manylebau a osodwyd yn y rheoliadau uchod.

## Y Broses Ymgeisio

Rhaid i Gyrrff Cofrestredig:

1. Gyflwyno ceisiadau am gynnyrch DBS ar ffurf a bennir gan y DBS.
2. Sicrhau bod ceisiadau am gynnyrch DBS yn cael eu cwblhau'n gywir a bod yr holl flychau data a bennir gan y DBS fel rhai gorfodol yn cael eu cwblhau'n llawn.
3. Sicrhau bod unrhyw gais a gyflwynir yn electronig yn cydymffurfio â manylebau yn unol â'r gofynion cyfredol.
4. Sicrhau, lle bydd gwirwyr tystiolaeth yn cwblhau unrhyw ran o weinyddiaeth y broses ymgeisio, y darparwyd digon o hyfforddiant i sicrhau'r un lefel o gywirdeb sy'n ofynnol gan DBS am y cyd-lofnodwr.

## Cadarnhau Hunaniaeth

Rhaid i gyrrff cofrestredig:

1. Gadarnhau hunaniaeth yr ymgeisydd cyn cyflwyno cais am gynnyrch DBS drwy ddilyn y canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan y DBS.<sup>6</sup>
2. Sicrhau bod unrhyw unigolyn sy'n ymgymryd â gwiriadau hunaniaeth ar eu rhan yn dilyn y canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan y DBS.
3. Gwneud yn siŵr nad yw llofnodwyr arweiniol neu cyd-lofnodwyr yn gwirio eu ceisiadau eu hunain ar gyfer unrhyw gynnyrch DBS.

## Ymdrin â Data

---

<sup>5</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2006/750/contents/made>

<sup>6</sup> <https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check/documents-the-applicant-must-provide>



## **Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Unigolion Cofrestredig Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Gallai methu â chydymffurfio â gofynion y DPA arwain at weithredu gorfodol gan yr ICO.

Yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, rhaid i Gyrff Cofrestredig a'r rhai sy'n cael gwybodaeth Gwasanaeth Diweddarau:

1. Gael polisi ysgrifenedig ar ymdrin yn ddiogel â gwybodaeth a ddarperir gan y DBS, yn electronig neu fel arall, a'i gynnig i fod ar gael i unigolion ar yr adeg pan ofynnir iddynt gwblhau ffurflen gais DBS neu ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'u gwybodaeth i gael mynediad at unrhyw wasanaeth a ddarperir gan y DBS.
2. Ymdrin â phob gwybodaeth a ddarparwyd ar eu cyfer gan y DBS, yn sgil ymgeisio am gynnyrch DBS, yn unol â'r gofynion dan Ddeddf Diogelu Data 1998.
3. Ymdrin â gwybodaeth yn ymwneud â'r DBS a roddwyd iddynt gan eu cyflogai neu gyflogai posib, yn unol â'r gofynion dan Ddeddf Diogelu Data 1998.
4. Sicrhau nad yw canlyniad a gafwyd fel rhan o gais a gyflwynwyd yn electronig yn cael ei atgynhyrchu mewn modd sy'n golygu ei fod yn awgrymu mai tystysgrif a gyhoeddwyd gan y DBS ydyw.
5. Sicrhau bod unrhyw drydydd partion yn ymwybodol o'r Egwyddorion Diogelu Data a rhoi arweiniad iddynt ar ymdrin yn ddiogel a chadw gwybodaeth. Er dibenion Diogelu Data, erys gwybodaeth a drosglwyddir i Gorff Cofrestredig gan y DBS yn gyfrifoldeb y Corff Cofrestredig hyd yn oed os trosglwyddir y wybodaeth i drydydd parti.
6. Sicrhau bod mesurau parhad busnes ac adfer yn sgil trychinebau mewn grym ac yn cydymffurfio â gofynion Diogelu Data.
7. Rhaid cydymffurfio â gofynion diogelwch dan Egwyddor 7 o'r Ddeddf Diogelu Data.<sup>7</sup>

## **Polisi Addasrwydd**

Rhaid i Gyrff Cofrestredig a'r rhai sy'n cael gwybodaeth Gwasanaeth Diweddarau:

1. Gael polisi ysgrifenedig ar addasrwydd cyn droseddwy'r i'w cyflogi mewn swyddi perthnasol. Dylai hynny fod ar gael ar gais i ymgeiswyr posib ac, yn achos rhai sy'n cynnal swyddogaeth ymbarel, dylai hynny fod ar gael i'w cleientiaid. Dylai cleientiaid Cyrff Cofrestredig sicrhau bod y polisi hwn ar gael i'w cyflogeion presennol a'r rhai posibl.
2. Sicrhau bod yr holl ymgeiswyr ar gyfer swyddi perthnasol neu gyflogaeth yn cael eu hysbysu ymlaen llaw o ofynion y Datgeliad.
3. Hysbysu holl ymgeiswyr posibl o effaith bosibl cofnod troseddol wrth recriwtio ac ar y broses ddethol ac unrhyw benderfyniad wrth recriwtio.

---

<sup>7</sup> <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/data-protection-principles/>

## Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Unigolion Cofrestredig Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

4. Trafod cynnwys y Datgeliad gyda'r ymgeisydd cyn tynnu unrhyw gynnig cyflogaeth yn ôl.

## Talu Ffioedd

Rhaid i Gyrrff Cofrestredig:

1. Dalu'r holl ffioedd cofrestru yn unol â'r cyfnodau amser a osodir yn y gweithdrefnau presennol.
2. Talu'r holl ffioedd yn gysylltiedig â chynnyrch DBS yn unol â'r cyfnodau amser a osodir yn y gweithdrefnau presennol
3. Talu'r holl ffioedd yn gysylltiedig â cheisiadau gwiriadau cofnodion troseddol a gyflwynwyd gan y DBS i ohirio cofrestrriad neu i ddileu cofrestru'r sefydliad.
4. Defnyddio diffiniad Deddf yr Heddlu o wirfoddolwr yn gywir ar gyfer pob cais am wriad cofnod troseddol i orfodi cymhwysedd na ddylid codi ffi ar gyfer y cais hwnnw.
5. Cyhoeddi'r holl ffioedd, mewn dogfennaeth berthnasol, sy'n gysylltiedig â phrosesu cais am wriad cofnod troseddol pan wnewch hynny ar ran eraill.
6. Hysbysu'r DBS yn ysgrifenedig o unrhyw newid i'r ffioedd sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau gwirio cofnodion Troseddol pan wnewch hynny ar ran eraill.

## Cymhwysedd

Gosodir cymhwysedd ar gyfer gwiriadau DBS yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Gwiriadau safonol – i fod yn gymwys am dystysgrif DBS lefel safonol, rhaid cynnwys y swydd yng Gorchymyn 1975 o Ddeddf Adferiad Troseddwyr (ROA) 1974 (Eithriad).<sup>8</sup>
- Gwiriadau manwl - i fod yn gymwys am dystysgrif DBS lefel manwl, rhaid cynnwys y swydd yng Ngorchymyn Eithriadau ROA a rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol).<sup>9</sup>
- Gwiriadau manwl gyda gwiriad(au) rhestr wahardd plant ac/neu oedolion – i fod yn gymwys i wneud cais am wriad o restrau gwahardd, rhaid i'r swydd fod yn gymwys am dystysgrif DBS lefel fanwl ac wedi ei rhestru'n benodol yn rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) fel un sy'n gymwys i wirio'r rhestr(au) wahardd briodol.

---

<sup>8</sup> Mae'r amryw o reoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) ar gael drwy chwilio ar <http://www.legislation.gov.uk>

<sup>9</sup> Mae'r amryw o reoliadau Deddf yr Heddlu 1997 (Cofnodion Troseddol) ar gael drwy chwilio ar <http://www.legislation.gov.uk>

## **Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Unigolion Cofrestredig Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Rhaid i Gyrrff Cofrestredig:

1. Ddefnyddio pob ymdrech resymol i sicrhau eu bod ond y cyflwyno ceisiadau gwirio Cofnodion Troseddol yn unol â'r darpariaethau cyfreithiol sy'n rhoi meini prawf cymhwysedd ar gyfer swyddi neu gyflogaeth perthnasol.
2. Sicrhau eu bod, cyn caniatáu i gais gwirio DBS gael ei gyflwyno, eu bod wedi asesu bod y swydd yn gymwys i'w chynnwys dan y gyfraith bresennol, bod y lefel gywir o wiriad wedi ei defnyddio ac wedi ei hymgeisio'n gywir yn unol â'r wybodaeth briodol ar y rhestr wahardd.
3. Sicrhau bod ganddynt hawl cyfreithiol i ymgeisio am unrhyw gynnyrch DBS a ofynnir amdano.

## **Ceisiadau Cydymffurfio**

Rhaid i Gyrrff Cofrestredig a'r rhai sy'n cael Gwybodaeth Gwasanaeth Diweddarau gydweithredu'n llawn ac yn unol ag amserlenni'r gweithdrefnau presennol,<sup>10</sup> pan gyflwynir ymholiadau DBS mewn perthynas â:

1. Chydymffurfiaeth barhaus o Gyrrff Cofrestredig a'r rhai sy'n cael Gwybodaeth Gwasanaeth Diweddarau a'r gofynion dan y Cod hwn.
2. Gweithredu'r gwaith gwahardd neu ddileu cofrestriad Corff Cofrestredig lle ceir diffyg cydymffurfio yn unol â gweithdrefnau presennol.

---

<sup>10</sup> Ar gael yn <http://www.gov.uk/DBS>

## **Geirfa**

**Corff Cofrestredig** – cyflogwr neu gwmni a gofrestrwyd gyda'r DBS er dibenion prosesu a chyflwyno ceisiadau ar gyfer cynnyrch DBS.

**Swyddogaeth Ymbarel** – Cyrff Cofrestredig yn prosesu a chyflwyno ceisiadau ar gyfer cynnyrch DBS gan gyflogwyr nad ydynt yn gymwys i gofrestru â'r DBS.

**Cynnyrch DBS** – Unrhyw lefel o wiriad sydd ar gael gan y DBS.

**Cleient** – Cwmni neu unigolyn sy'n ymwneud â swyddogaethau ymbarel gan gorff cofrestredig.